Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

**Ymarfer Hap-samplu**

**gan y**

**Panel Craffu**

# Adolygiad o Achosion Cam-drin Domestig gan Oedolion ac Ieuenctid

# (Rhagfyr 2018 – Ebrill 2019)

# Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys

**Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel**

**Ebrill 2019**

## Cynnwys

1.0 Trosolwg .......... 2
2.0 Cefnir, diben a methodoleg .......... 2
2.1 Data cefndir .......... 3
3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel .......... 4
4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel .......... 5
5.0 Ystyried achos domestig – drwgdybyn ifanc .......... 5
6.0 Ystyriaeth o Achosion Cam-drin Domestig – drwgdybiedigion sy'n oedolion .......... 5
6.1 Sylwadau .......... 6
7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn .......... 9
7.1 Arfer da .......... 12
7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant .......... 12
8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol .......... 12

## 1.0 Trosolwg

Mewn cyfarfod o Banel Craffu Gwarediadau y tu allan i'r Llys Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2019, adolygodd yr aelodau ddetholiad o achosion cam-drin domestig yr ymdriniwyd â hwy drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys.

Ystyriodd y Panel gyfanswm o 13 achos cam-drin domestig, un achos yn ymwneud ag unigolyn ifanc a deuddeg achos yn ymwneud ag oedolion.

## 2.0 Cefnir, diben a methodoleg

Mae Aelodau'r Panel ar y cyd yn cytuno maes ffocws ar gyfer pob cyfarfod. Pythefnos cyn pob cyfarfod, maent yn derbyn ffeiliau achos perthnasol a ddewiswyd ar hap gan Gadeirydd y Panel. Yna mae'r Panel yn cyfarfod i drafod pob achos a, lle y bo'n bosib, dod i benderfyniad ynghylch priodoldeb y gwarediadau. **Wrth benderfynu pa gategori mae'r achos yn perthyn iddo, mae'r Panel yn ystyried y meini prawf canlynol:**


- Barn ac adborth gan y dioddefydd a'r troseddwr;
- Cydymffurfiaeth â pholisi'r heddlu;
- Sail resymegol dros y penderfyniad a'r canlyniad;
- Effaith debygol ar y gymuned ;
- Amgylchiadau a difrifoldeb y drosedd; a
- Dewisiadau eraill posibl a allai fod ar gael.


Mae'r Panel yn trafod pob achos ac yn eu categoreiddio fel un o'r canlynol:


- Defnydd priodol ac yn gyson â'r polisi;
- Defnydd priodol gydag amheuon gan Aelodau'r Panel;
- Defnydd amhriodol neu ddiffyg cysondeb â'r polisi; a
- Panel yn methu â chyrraedd canlyniad.

## 2.1 Data cefndir

Mae'r graffiau canlynol yn dangos y newid dros amser o ran defnydd Heddlu Dyfed-Powys o wahanol fathau o waredіadau y tu allan i'r llys.






## 3.0 Cymeradwyaeth Cadeirydd y Panel

Gallaf i ______________________________________ (printiwch yr enw) gadarnhau fy mod wedi darllen yr adroddiad, a'i fod yn cynrychioli'n llwyr y farn a fynegwyd gan y Panel yn ystod ein hymarfer hap samplu ar 10 Ebrill 2019.

Llofnod: ________________________________

Dyddiad: ________________________________

## 4.0 Camau a gymerwyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Panel

O ganlyniad i waith y Panel Craffu ar Warediadau y Tu Allan i'r Llys, cymerwyd y camau canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

- Adolygodd y Tîm Troseddau Ieuenctid perthnasol y trydydd achos o'r cyfarfod blaenorol, a chefnogi'r canlyniad o Warediad Adferol Ieuenctid.

## 5.0 Ystyried achos domestig – drwgdybyn ifanc

Ymdriniwyd â'r achos cam-drin domestig, a oedd yn ymwneud ag unigolyn ifanc, drwy Rybudd Ieuenctid. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y canlyniad hwn yn briodol, er bod ganddynt amheuon.

Roedd asesiad yr Aelodau fel a ganlyn:

**Achos 1**

Gan fod y drwgdybyn yn defnyddio canabis yn rheolaidd, roedd yr Aelodau'n teimlo y byddai wedi elwa o dderbyn cymorth gan y Tîm Troseddau Ieuenctid (TTI) a allai fod wedi'i roi drwy Rybudd Amodol Ieuenctid. Roedd yr Aelodau'n teimlo bod yr unigolyn mewn perygl o aildroseddu, ac y byddai wedi elwa o ymgysylltu â'r TTI.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

## 6.0 Ystyriaeth o Achosion Cam-drin Domestig – drwgdybiedigion sy'n oedolion

Adolygodd yr Aelodau Panel ddeuddeg achos oedolyn lle'r ymdriniwyd ag unigolion drwy Warediad y Tu Allan i'r Llys.

Roedd asesiadau'r Aelodau fel a ganlyn:

| Asesiadau'r Aelodau | Nifer yr achosion |
|---|---|
| Priodol | 6 |
| Priodol gydag amheuon | 2 |
| Amhriodol | 4 |

## 6.1 Sylwadau

Nodir isod sylwadau Aelodau'r Panel ar gyfer pob achos.

### Achos 2

Roedd yr Aelodau Panel yn teimlo y byddai Rhybudd Amodol yn ganlyniad mwy addas. Er mai mân ddigwyddiad ydoedd, nid oes modd cyhoeddi Datrysiadau Cymunedol Oedolyn ar gyfer digwyddiadau domestig.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 3

Nododd yr Aelodau Panel yr un peth ag achos dau, sef na ddylid cyhoeddi Datrysiad Cymunedol Oedolyn ar gyfer digwyddiad domestig.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

### Achos 4

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y canlyniad, sef Rhybudd Oedolyn, yn briodol ar gyfer y digwyddiad; fodd bynnag, dylid fod wedi categoreiddio'r digwyddiad hwn fel achos lladrad yn hytrach nag achos domestig oherwydd roedd yn ymwneud â'r drwgdybiedig yn cymryd car aelod o'r teulu heb ganiatâd. Hefyd, datgelodd y ffeil achos y byddai'r drwgdybiedig wedi'i ddal yn cyflawni troseddau gyrru, a fyddai'n debygol o fod wedi arwain at wrandawiad llys. Ystyriodd yr Aelodau Panel y gallai fod wedi bod yn briodol ystyried y troseddau gyda'i gilydd a gofynnon nhw am gael gweld canlyniad y troseddau gyrru.

**Asesiad y Panel: Priodol gydag amheuon**

| **Cam Gweithredu 1**<br><br>Adolygu canlyniadau'r troseddau gyrru o fewn achos 4 ac ystyried pa un ai a allant fod wedi effeithio ar ganlyniad y drosedd o gymryd heb ganiatâd. |
|---|

**Achos 5**

Ni fynegodd y Panel unrhyw bryderon ynghylch canlyniad yr achos hwn. Nodwyd nad oedd y digwyddiad a oedd yn cael ei adolygu'n drosedd ddomestig, ond yn hytrach, yn gysylltiedig â throsedd flaenorol a oedd yn fater domestig.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 6**

Er nad oedd gan yr unigolyn unrhyw euogfarnau blaenorol, oherwydd difrifoldeb y drosedd, roedd yr Aelodau'n teimlo bod gwarediad y tu allan i'r llys yn amhriodol. Oherwydd yr aflonyddu a'r stelcio parhaus a oedd yn dwysau, roedd y Grŵp yn teimlo y dylai'r unigolyn fod wedi'i gyhuddo. Fodd bynnag, nododd yr Aelodau fod y dioddefydd wedi derbyn lefel gwasanaeth da a chymorth adeg y digwyddiad.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 7**

Daeth y Panel i'r casgliad nad oedd yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Rhoddwyd Rhybudd Amodol Oedolyn nad oedd yn cydymffurfio â'r polisi ar gyfer achosion domestig. Hefyd, nododd y Panel fod gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol a hanes o ddifrod troseddol. Roedd yr Aelodau'n teimlo y dylai'r canlyniad fod wedi'i ddwysau'n briodol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 8**

Roedd y Panel yn teimlo bod canlyniad yr achos hwn yn briodol ac yn unol â'r polisi.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 9**

Roedd y Panel yn teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Nid oedd y digwyddiad o natur ddifrifol, ac nid oedd y dioddefydd am gefnogi'r gŵyn.

**Asesiad y Panel: Priodol**

**Achos 10**

Er bod rheswm da wedi'i nodi er mwyn cefnogi Rhybudd Amodol, nododd yr Aelodau nad yw cyhoeddi Rhybudd Amodol Oedolyn ar gyfer achos domestig yn unol â'r polisi. Teimlai'r aelodau bod tystiolaeth bod cyngor da wedi'i roi i'r galwr a adroddodd am y digwyddiad, a sicrhaodd y gallai gadw ei hun a'i fam yn ddiogel rhag niwed.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 11**

Penderfynodd yr Aelodau nad oedd yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol. Roedd gan yr unigolyn euogfarnau blaenorol ac roedd plentyn 14 oed yn bresennol adeg y digwyddiad. Roedd yr Aelodau'n teimlo nad oedd yr achos hwn wedi'i ddwysau'n briodol.

**Asesiad y Panel: Amhriodol**

**Achos 12**

Gan nad oedd euogfarnau blaenorol gan yr unigolyn, roedd y canlyniad, sef Rhybudd Oedolyn, yn waredlad priodol.

**Asesiad y Panel: Priodol**


**Achos 13**

Er bod yr Aelodau'n teimlo bod yr achos hwn wedi'i waredu'n briodol, nodwyd y dylai'r digwyddiad fod wedi'i gofnodi fel ymosodiad yn hytrach na digwyddiad domestig gan mai bachgen 14 oed oedd y dioddefydd.


**Asesiad y Panel: Priodol**

## 7.0 Asesiadau'r Panel hyd yn hyn

Mae'r graff isod yn dangos asesiadau'r Panel o'r achosion a ystyriwyd yn y cyfarfod diweddaraf.





Ers Ebrill 2013 mae'r Panel wedi ystyried amrywiaeth o waredidau, fel y gwelir yn y graff isod.




O'r 289 o achosion a adolygwyd rhwng Ebrill 2013 ac Ebrill 2019, cafodd 56% eu hasesu'n briodol, 23% yn amhriodol, 19% yn briodol gydag amheuon a methodd y Panel â dod i ganlyniad mewn 2% o'r achosion.


Ar y cyfan, bu cynnydd yn nifer yr achosion a ystyriwyd gan y Panel yn waredìadau priodol. Gellir gweld y newid hwn dros amser yn y graff isod.




Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad fesul math o drosedd fel canran o'r achosion a ystyriwyd rhwng Tachwedd 2013 ac Ebrill 2019.




Mae'r graff canlynol yn dangos y nifer gwirioneddol o achosion a aseswyd o fewn pob math o drosedd a barn y Panel yn eu cyfarfodydd rhwng Tachwedd 2013 ac Ebrill 2019.



### 7.1 Arfer da

Nodwyd yr arfer da canlynol o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nododd y panel fod y dioddefwyr wedi derbyn arweiniad a chymorth da iawn mewn dau achos yn ystod/ar ôl y digwyddiad er mwyn helpu i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel rhag niwed.

### 7.2 Meysydd sydd angen Gwelliant

Nodwyd dau faes penodol lle'r oedd angen gwelliant o ganlyniad i waith y Panel yn ystod y chwarter hwn:

- Nodwyd bod pedwar o'r achosion oedolion wedi derbyn Rhybudd Amodol neu Ddatrysiad Cymunedol. Mae hyn yn groes i'r polisi ar gyfer achosion Cam-drin Domestig.
- Teimlai'r Aelodau bod tri o'r achosion wedi'u cofnodi'n anghywir fel achos Cam-drin Domestig.

## 8.0 Ffocws y Panel yn y Dyfodol

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r hyn y gallai'r Panel ystyried nesaf. Penderfynwyd yr hoffai'r Panel ystyried achosion Dwyn, gan ganolbwyntio'n arbennig ar ddigwyddiadau Twyll.

18-7-19.